Ysgol Penrhyn-coch

Ddechrau Tachwedd cawsom gyfle i groesawu Miss Delyth Davies o Benllwyn atom am bythefnos. Myfyrwraig yng Ngoleg y Brifysgol Aberystwyth ydyw a'i bryd ar fod yn athrawes. Am wythnos o brofiad gwaith o Ysgol Gyfun Penweddig oedd Miss Eleri Evans, Dole. Bu'r ddwy yn gartrefol braf yn ein plith ac yn barod iawn i ymgymryd â phob agwedd o waith ysgol. Ein diolch diffuant iddynt a dymuniadau gorau i'r ddwy yn y dyfodol.

Cafwyd cwmni Mr Norman Young un prynhawn a bu'n dangos i blant dosbarth 3 a 4 ei ddawn fel arlunydd a sut yr â ati i arlunio cymeriadau mewn storïau. Hefyd bu Dr Michael Freeman o'r